Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bryn Alyn**
**Church Street**
**Gwersyllt**
**Wrecsam**
**LL11 4HD**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bryn Alyn

Ysgol gyfun gymysg 11-16 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Bryn Alun, ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Wrecsam. Mae ganddi 702 o ddysgwyr ar y gofrestr ar hyn o bryd, sy'n llai nag ar adeg yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu nifer o gymunedau pentrefi yng ngogledd orllewin Wrecsam, ac mae wedi'i lleoli ym mhentref Gwersyllt. Mae ychydig llai nag 20% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.0%. Mae tua 25% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi sicrhau adnoddau ar gyfer darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymedrol. Ar hyn o bryd, mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ryw 2% o ddisgyblion, sydd gerllaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Dim ond 1% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl.

Ymgymerodd y pennaeth dros dro â'i swydd ym Medi 2017, ond mae wedi bod yn gweithio yn yr ysgol er 2016 fel dirprwy bennaeth. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth dros dro, dirprwy bennaeth dros dro, dau bennaeth cynorthwyol, dau bennaeth cynorthwyol cyswllt a'r rheolwr busnes. Hefyd, mae pennaeth cyswllt yn gweithio'n rhan-amser yn yr ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Ceir ethos cefnogol a gofalgar yn Ysgol Bryn Alyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer ohonynt yn deall sut i fyw bywydau iach. Mae mwyafrif y disgyblion yn foesgar a chwrtais. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y disgyblion yn dangos fawr o ddiddordeb mewn gwersi ac mae ymddygiad lleiafrif mewn gwersi yn tarfu ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill.

Daw llawer o ddisgyblion i mewn i'r ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd gwan, ac nid yw mwyafrif yn gwella'r medrau hynny'n ddigon da. Mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn wael, ac yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud llawer llai o gynnydd na'r disgwyl o gyfnodau allweddol blaenorol.

Nid yw'r addysgu yn effeithiol, ac yn gyffredinol, mae disgwyliadau staff o'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn rhy isel. Yn ogystal, nid yw asesu yn gwella dysgu disgyblion yn ddigonol.

Ers iddi ymgymryd â'i rôl bresennol, mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Dros gyfnod o amser, fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi llwyddo i wella'r meysydd pwysicaf o waith yr ysgol, fel codi safonau, ymddygiad disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 a’r cynnydd a wneir gan ddisgyblion, yn cynnwys datblygu’u medrau

A2 Gwella presenoldeb ac ymddygiad disgyblion

A3 Gwella ansawdd yr addysgu ac asesu fel bod disgyblion yn ymgysylltu’n llawn â’u dysgu

A4 Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys trylwyrdeb a chywirdeb hunanarfarnu a manylder cynllunio gwelliant

A5 Darparu rheolaeth ariannol gadarn er mwyn cael gwared ar y diffyg yn y gyllideb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn fod angen rhoi mesurau arbennig ar waith mewn perthynas â’r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**

Mae llawer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Nid yw mwyafrif yn gwella'r medrau hynny'n ddigon da, ac mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn wael. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud llawer llai o gynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol na'r disgwyl.

Yn ystod gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol sy'n ffeithiol yn bennaf, fel y Pla Mawr, yn briodol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif sy'n gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau, neu wrth gymhwyso'r hyn y maent yn ei gofio yn ddigon da mewn cyd-destunau gwahanol, fel wrth drafod credoau crefyddol pobl. Mae ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd cryfach, er enghraifft wrth ddatblygu empathi â gallu pobl i faddau, a dealltwriaeth o hynny.

Mae medrau gwrando sicr gan lawer o ddisgyblion, er nad yw lleiafrif yn gwrando ar yr athro na'u cyfoedion gyda digon o sylw a pharch. O ganlyniad, maent yn colli gwybodaeth berthnasol, fel esboniad yr athro o sut i fynd i'r afael â phapur arholiad penodol, neu farnau'u cyfoedion ar waith y maent yn ymwneud ag ef. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu darparu ymatebion llafar byr a phriodol, er enghraifft, pan fyddant yn esbonio peryglon sy'n gysylltiedig â llosgi sylweddau neu esbonio'r gwaith a wneir gan sbring. Mae ychydig o ddisgyblion yn darparu ymatebion mwy datblygedig ac yn defnyddio geirfa penodol i bwnc yn dda, fel wrth nodi, enwi ac esbonio addasrwydd ystod o offer llaw a ddefnyddir i dorri a siapio alwminiwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn llithrddarllen a bwrw golwg yn addas er mwyn dod o hyd i wybodaeth mewn gwahanol destunau. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n dda gan ychydig i gynorthwyo'u dealltwriaeth o faterion, fel trallod yr Almaen wrth golli'r Rhyfel Mawr. Mae llawer yn darllen gyda lefel addas o ddealltwriaeth, a gallant gofio pwyntiau allweddol mewn testun, fel yn hanes jazz. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cyfosod gwybodaeth o ffynonellau hanesyddol yn dda i ddyfnhau eu dealltwriaeth o faterion allweddol, gan gynnwys Cytundeb Versailles, trefniant gwleidyddol Weimar yr Almaen, a'r amgylchiadau yn ymwneud â Noson y Cyllyll Hirion. Mae cyfran debyg o ddisgyblion yn gallu adnabod a thrafod yn addas y ddelweddaeth yng ngwaith beirdd cyfoes, fel Peter Finch a Paul Henry. At ei gilydd, serch hynny, nid yw tua hanner y disgyblion yn defnyddio ystod ddigonol o strategaethau dysgu i gefnogi'u dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig priodol ar destunau, gan gynnwys llwyddiant, neu fethiant, amddiffynfeydd llifogydd yn Carlisle yn 2015, dyddiaduron a ysgrifennwyd yn ystod y pla yn Llundain, a briffiau manwl ar waith prosiect, fel dylunio seinydd cludadwy. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn dal i wneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu hysgrifennu. Yn aml, mae diffyg rheolaeth yn ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion oherwydd eu defnydd gwael o atalnodi fel asio atalnodau, a gramadeg gwan, gan gynnwys defnyddio is-gymalau yn hytrach na brawddegau llawn. Mae medrau cyflwyno gwael gan fwyafrif o ddisgyblion, ac nid ydynt yn cymryd llawer o ofal na balchder yn eu gwaith. Nid ydynt yn deall sut i brawfddarllen, golygu nac ailddrafftio'u gwaith yn addas, nac yn cymryd cyfrifoldeb dros wneud hynny cyn iddynt ei gyflwyno i'r athro.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu amrywiaeth o graffiau ar destunau fel amlder tirlithriadau. Mae mwyafrif yn llunio graffiau llinell syth yn fedrus gan ddefnyddio graddfeydd cywir a thynnu llinellau ffit gorau, ond mae lleiafrif yn esgeulus iawn wrth lunio'r graffiau hyn. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn dadansoddi graffiau yn dda, gan gyfrifo cysonion oddi wrth raddiannau. Mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhif sylfaenol yn fedrus wrth ddatrys hafaliadau syml, ac mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau mesur sylfaenol pan fyddant, er enghraifft, yn marcio a mesur y canolbwyntiau ar gyfer drilio tyllau. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio nac yn datblygu'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn cyd-destunau ystyrlon y tu allan i wersi mathemateg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm. Lle mae hyn yn digwydd, prosesu geiriau syml iawn ydyw yn bennaf, er enghraifft i gynhyrchu tudalen we i werthu cynnyrch, er y caiff hyn ei danseilio'n aml gan eu medrau llythrennedd gwan iawn.

Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu'u creadigrwydd yn dda. Er enghraifft, mae mwyafrif o ddisgyblion yn creu dyluniadau diddorol ar gyfer eu teclynnau dal canhwyllau golau te, tra bod ychydig o ddisgyblion mwy abl yn creu dyluniadau coeth yn seiliedig ar flodau, pysgod neu siapiau geometrig. Yn ogystal, mewn gwersi tecstilau, mae disgyblion yn dylunio casys ffonau symudol yn llwyddiannus, tra bod disgyblion eraill yn gweithio'n dda â'i gilydd wrth ddyfeisio dilyniant o falansau o amgylch cyfarpar mawr mewn addysg gorfforol.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg. Mae perfformiad yr ychydig o ddisgyblion sy'n astudio'r cwrs llawn yn weddol debyg i hynny mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y cwrs byr wedi bod islaw'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

Yn 2015 a 2016, bu tuedd am i lawr o ran y rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad, ac mae data dros dro ar gyfer 2017 yn dangos bod perfformiad wedi gostwng ymhellach o ran y rhan fwyaf o'r dangosyddion hynny. Mae perfformiad ar drothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, ac o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, yn dal ymhell islaw hynny mewn ysgolion tebyg, felly hefyd gyfran y disgyblion sy'n ennill pump gradd A*-A mewn TGAU neu gymwysterau cyfwerth. Mae bechgyn, merched, a disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, bob un ohonynt yn perfformio'n gyson islaw'r grwpiau hyn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg, mewn llawer o ddangosyddion.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg neu hyfforddiant amser-llawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**

Mae mwyafrif y disgyblion yn foesgar a chwrtais. Fodd bynnag, mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion mewn gwersi yn tarfu ac yn cael effaith negyddol ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y digwyddiadau ymddygiad a gofnodwyd wedi cynyddu, ac mae'n uchel. Mae nifer y gwaharddiadau parhaol yn uchel, a hefyd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol. Cynyddodd y rhain yn sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf.

Nid yw tua hanner y disgyblion yn dangos fawr o ddiddordeb mewn gwersi. Mae ganddynt ddiffyg uchelgais a brwdfrydedd dros eu dysgu, ac nid ydynt yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau. Mae'r disgyblion hyn yn or-ddibynnol ar athrawon, medrau dysgu annibynnol cyfyngedig iawn sydd ganddynt, ac mae diffyg gwydnwch yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer o'r farn fod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae dealltwriaeth glir gan lawer o ddisgyblion o sut i gadw'n iach trwy ddeiet ac ymarfer corff. Fodd bynnag, mae nifer y disgyblion sy'n cyfranogi'n rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol allgyrsiol yn isel.

Caiff y cyngor ysgol effaith briodol ar ychydig o agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft wrth gyfrannu at newidiadau a awgrymir i'r wisg ysgol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael eu cynnwys ddigon mewn penderfyniadau ynglŷn â'u bywyd yn yr ysgol, gan gynnwys agweddau ar addysgu a dysgu.

Mae presenoldeb disgyblion wedi bod ymhell islaw hynny a ddisgwylir yn gyson am y pedair blynedd diwethaf. Hefyd, mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn is o lawer na hynny ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**

Mae ansawdd yr addysgu yn anfoddhaol ac mae angen gwelliant ar frys. Er bod llawer o agweddau ar y cwricwlwm yn gadarn, mae arfer asesu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn wan.

Mae gwybodaeth bynciol gadarn gan lawer o athrawon. Mae mwyafrif yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ystod o weithgareddau a gysylltir yn briodol ag amcanion dysgu addas. Mewn ychydig iawn o wersi, mae'r awyrgylch pwrpasol yn y dosbarth a chyflwyniad brwdfrydig yr athro yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Lle maent yn bresennol, mae'r rhan fwyaf o gynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at gynorthwyo cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, nid oes disgwyliadau ddigon uchel gan athrawon o'r hyn y gallai eu disgyblion ei wneud, ac nid ydynt ychwaith yn eu herio digon. Yn aml, mae'r athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac yn camfarnu rhediad y wers, sy'n cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Yng nghyfnod allweddol 3, mae athrawon yn aml yn gosod tasgau lefel isel sydd yn ailadrodd profiadau dysgu disgyblion o'r ysgol gynradd yn aml, neu, yr un mor amhriodol, yn cyflwyno gwaith TGAU, nad yw'r medrau gan y rhan fwyaf o ddisgyblion i'w gwblhau. Yng nghyfnod allweddol 4, mae gormod o wersi yn fformiwläig gyda'r nod o baratoi disgyblion ar gyfer asesiad penodol yn hytrach na meithrin dysgu a dealltwriaeth ddyfnach. Nid yw'r rhan fwyaf o'r addysgu yn ennyn brwdfrydedd disgyblion nac yn eu cymell i ymdrechu'n galed. Caiff hyn effaith niweidiol ar gynnydd pob disgybl, gan gynnwys y rhai mwy abl.

Mae technegau holi yn agwedd arbennig o wan ar yr addysgu, a cheir diffyg amrywiaeth yn y math a'r dechneg a ddefnyddir gan athrawon. Yn rhy aml, mae cwestiynau athrawon ond yn canfod y wybodaeth sydd gan ddisgyblion a'r hyn maent yn ei gofio, yn hytrach nag archwilio'u dealltwriaeth. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i athrawon fesur yn ddigon da y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth llafar digon defnyddiol i ddisgyblion i arwain eu dysgu.  Fodd bynnag, mae ansawdd a gwerth sylwadau ysgrifenedig yn rhy amrywiol.  Mae gormod o athrawon nad ydynt yn dilyn polisi marcio'r ysgol, a cheir fawr ddim adborth ysgrifenedig, neu ddim adborth o gwbl, mewn lleiafrif o lyfrau.  Yn aml, mae sylwadau athrawon yn rhy gyffredinol, yn ymwneud ag ymdrech ac yn rhy hael o ran eu canmoliaeth i waith cymedrol iawn.  O ganlyniad, nid yw'r asesu yn gwella dysgu disgyblion yn ddigonol, ac nid yw athrawon yn ei ddefnyddio i lywio'u cynllunio i'r dyfodol yn ddigon da.

Mewn llawer o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yr ysgol yn gyson, ac maent yn caniatáu i ymddygiad gwael rwystro dysgu disgyblion.  O ganlyniad, nid yw'r addysgu yn ddigon effeithiol am fod gormod o ddisgyblion yn ymddieithrio'n aml neu caiff eu sylw ei dynnu'n aml, ac nid ydynt yn galluogi disgyblion eraill i ganolbwyntio'n ddigon da ar eu gwaith.

Yn gyffredinol, nid yw mwyafrif yr addysgu yn galluogi disgyblion i wella'u gwybodaeth neu eu dealltwriaeth yn ddigonol.

Mae cynllunio'r ysgol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol yn arbennig o wan, ac nid yw'n bodloni anghenion disgyblion yn ddigon da.  Mae'r ysgol wedi rhoi sylw addas i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, ac wedi darparu hyfforddiant perthnasol.  Er hyn, nid yw athrawon wedi ymgorffori cyfleoedd buddiol a chynyddol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd neu TGCh mewn cyd-destunau ystyrlon.  Mae'r ysgol yn nodi disgyblion â medrau gwan ac mae ganddi ystod addas o strategaethau ymyrryd i'w cynorthwyo.  Fodd bynnag, nid yw'r ymyriadau hyn yn ddigon amserol nac effeithiol.  Nid yw cydlynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae rhesymwaith addas gan yr ysgol ar gyfer y cwricwlwm y mae'n ei gynnig, a'r newidiadau y mae wedi'u gwneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.  Mae arweinwyr wedi diwygio'r cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn fuddiol i gynorthwyo dilyniant disgyblion yn briodol i mewn i gyfnod allweddol 4.  Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o bynciau yng nghyfnod allweddol 4 sy'n rhoi cyfleoedd buddiol i'r holl ddisgyblion symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mewn cydweithrediad â choleg addysg bellach ac ysgol arbennig leol, caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gymorth arbennig o dda trwy gyfnod allweddol 4.  Maent yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd buddiol i astudio, er enghraifft, gofal anifeiliaid bach ac adeiladwaith, sy'n bodloni'u hanghenion yn dda.  Mae'r ddarpariaeth yn y ganolfan lles yn darparu cyfleoedd addas i'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae perygl iddynt ymddieithrio, i ddilyn cyrsiau sy'n bodloni'u hanghenion yn addas.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau addas i wella'r cwricwlwm.  Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, ymweliadau â gwersyll-garchar Auschwitz a chyfranogi mewn sioeau teithiol gwyddoniaeth.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion.  Mae'n sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn dilyn cwrs lefel 2 mewn Cymraeg.  Mae lleiafrif o staff yn defnyddio Cymraeg yn eu trafodion dyddiol gyda disgyblion, ac mae athrawon yn sicrhau bod y Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael amlygrwydd addas drwy weithgareddau allgyrsiol, fel yr Eisteddfod flynyddol a theithiau i Wersyll Glan Llyn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adolygu ei pholisi rheoli ymddygiad ac mae'n cynnal peilot o ymagwedd newydd mewn pynciau craidd. Fodd bynnag, nid yw'r polisi hwn na'r polisi blaenorol, sydd yn dal i gwmpasu pynciau di-graidd, yn cael ei gymhwyso'n gyson gan staff. O ganlyniad, mewn llawer o wersi, nid eir i'r afael ag ymddygiad gwael gan leiafrif o ddisgyblion sy'n tarfu ar ddisgyblion eraill.

Ceir ethos cefnogol a gofalgar yn yr ysgol. Caiff disgyblion eu hannog i wneud dewisiadau bwyta iach, ac mae'r cwricwlwm yn helpu i'w dysgu, er enghraifft, am ffyrdd iach o fyw a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel. Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion gyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol, fel pêl-rwyd a phêl-droed, er bod lefelau cyfranogi yn isel.

Eir i'r afael â datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion drwy wasanaethau boreol priodol ac amser tiwtor ar destunau fel yr ysbryd Olympaidd. Caiff eu datblygiad cymdeithasol ei gefnogi'n addas drwy ystod o ymyriadau a gweithgareddau buddiol fel sgyrsiau gan y gwasanaethau brys a pherfformiadau theatrig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod briodol o asiantaethau allanol i gynorthwyo datblygiad personol disgyblion. Caiff agweddau cadarnhaol at amrywiaeth a chydraddoldeb eu cefnogi'n briodol gan raglen lles yr ysgol, sy'n cynnwys digwyddiadau buddiol fel Wythnos Iechyd Emosiynol a phrosiect bwyd amlddiwylliannol ym Mlwyddyn 9.

Mae'r disgyblion hynny â'r perygl mwyaf o beidio ag aros yn yr ysgol yn cael eu cynorthwyo'n briodol drwy ystod o raglenni, gan gynnwys cyrsiau coleg a chyrsiau'r fyddin. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn eu dysgu yn gyffredinol.

Nid yw systemau'r ysgol i fonitro a gwella presenoldeb disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, mae presenoldeb yn dal ymhell islaw'r lefel a ddisgwylir.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi a'u holrhain yn dda, ac mae proffiliau disgyblion manwl yn darparu gwybodaeth werthfawr. Nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da, fodd bynnag, ac nid yw'r ysgol ychwaith yn arfarnu ansawdd darpariaeth ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon cadarn. O ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd. Yn ogystal, mae trefn yr ysgol i nodi ac olrhain disgyblion mwy abl yn anghyson ac nid yw'r ddarpariaeth i gyfoethogi ac ehangu'u profiadau dysgu wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt hwythau ychwaith yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Mae trefniadau bugeiliol gydag ysgolion cynradd bwydo yn briodol ac yn darparu cymorth buddiol i'r disgyblion sy'n fwyaf agored i niwed. Caiff disgyblion gymorth da wrth wneud eu dewisiadau opsiynau.

Mae gweithdrefnau diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid oes unrhyw feysydd pryder mawr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys

Ers ymgymryd â'u rôl bresennol ym Medi 2017, mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar addysgu gwell a deilliannau cryfach ar gyfer disgyblion. Gyda chymorth gan yr uwch dîm rheoli, mae wedi sefydlu cyfathrebu mwy effeithiol rhwng yr uwch dîm rheoli a'r staff, ac wedi gwella morâl y staff.

Mae'r pennaeth dros dro a'r uwch dîm rheoli wedi nodi'u blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu, ac maent wedi adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau allweddol. Mae hyn yn cynnwys gwella a chryfhau polisi ymddygiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi llwyddo i wella meysydd allweddol o waith yr ysgol, yn cynnwys codi safonau, gwella ymddygiad a phresenoldeb disgyblion, a gwella ansawdd yr addysgu.

Mae cyfrifoldebau'r uwch dîm rheoli wedi'u hadolygu'n ddiweddar, ond nid ydynt wedi'u dosbarthu'n effeithiol. Mae gormod o gyfrifoldebau amrywiol gan y pennaeth dros dro, yn cynnwys bod yn rheolwr llinell mewn gormod o feysydd pwnc. Nid yw hyn yn gadael digon o amser i ganolbwyntio ar faterion strategol. Nid yw'n glir o fewn y strwythur arweinyddiaeth pwy sy'n gyfrifol am sicrhau cymhwyso polisïau'n gyson. Mae hyn wedi cyfrannu at beidio â mynd i'r afael yn effeithiol â staff sy'n tanberfformio.

Mae'r uwch dîm arwain wedi adolygu'r strwythur rheoli llinell ac erbyn hyn mae'n cael cyfarfodydd cyswllt rheolaidd sy'n canolbwyntio'n addas ar safonau. Mae'r newidiadau hyn yn dechrau cynyddu atebolrwydd arweinwyr canol. Fodd bynnag, nid yw llinellau atebolrwydd ar gyfer meysydd allweddol perfformiad yr ysgol yn ddigon clir.

Mae gormod o amrywioldeb yn ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr bugeiliol ac arweinwyr pwnc. Nid yw llawer yn deall eu rôl yn llwyr, a dim ond ychydig ohonynt sydd wedi bod yn effeithiol yn codi safonau yn eu meysydd cyfrifoldeb. Nid oes gafael cadarn gan lawer o arweinwyr pwnc ar gryfderau a gwendidau addysgu yn y meysydd y maent yn eu harwain.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth resymol o'i chryfderau a'i gwendidau. Maent yn datblygu dealltwriaeth well o'r setiau data craidd, ac yn dechrau defnyddio'r ddealltwriaeth hon i herio'r ysgol ar ei pherfformiad mewn meysydd allweddol. Fodd bynnag, nid ydynt wedi herio'r ysgol yn ddigon da mewn perthynas â meysydd allweddol lle ceir tanberfformiad, gan gynnwys safonau disgyblion, presenoldeb, ymddygiad ac ansawdd yr addysgu.

Mae gan yr ysgol galendr defnyddiol o weithgareddau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, ac yn ddiweddar mae wedi adolygu llawer o'i gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth am waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at y gwelliannau sydd eu hangen mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr yn defnyddio data'n briodol i ddadansoddi a chymharu perfformiad yn erbyn perfformiad ysgolion tebyg. Maent yn casglu tystiolaeth addas o arsylwadau gwersi a thrwy graffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, ceir anghysondeb wrth arfarnu data perfformiad a gwybodaeth a gasglwyd o brosesau sicrhau ansawdd. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn nodi'r meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu yn ddigon cywir. Nid yw'r ysgol yn holi barn disgyblion neu rieni'n ddigon systematig ac nid yw'n gallu rhoi blaenoriaeth i agweddau sy'n achosi pryder iddynt.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol, er ei fod yn gryno ac yn benodol mewn mannau, yn ddetholus, yn anghyson ac yn rhy gadarnhaol, yn enwedig mewn meysydd allweddol fel arweinyddiaeth, ymddygiad disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Mae arfarniadau adrannol yn dilyn yr un fformat ond maent yn anghyson o

ran ansawdd a chynnwys. Nid yw ychydig o adrannau yn gwneud defnydd o'r holl dystiolaeth sydd ar gael, ac maent yn rhy hael yn eu harfarniad o'r addysgu gan nad ydynt yn ystyried yr effaith a gaiff ar ddeilliannau disgyblion.

Mae cynllun gwella'r ysgol yn cynnwys pump o flaenoriaethau addas. Mae cynlluniau gwella adrannol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Nid yw llawer o gynlluniau yn cynnwys meini prawf llwyddo yn seiliedig ar dargedau sicr, nac yn cynnwys digon o gamau gweithredu sy'n ddigon manwl neu gadarn i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen. Nid yw cyfrifoldebau monitro yn ddigon penodol ac nid yw cynlluniau wedi'u costio'n ddigonol.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud gwelliannau digonol a chynaledig yn unol ag argymhellion yr arolygiad ym Mai 2012, yn enwedig safonau yng nghyfnod allweddol 4, datblygu medrau llythrennedd disgyblion ac ansawdd a chysondeb hunanarfarnu adrannol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol defnyddiol, fel hyfforddiant allanol ar gyfer arweinwyr canol. Mae'r ysgol yn dechrau rhannu arfer effeithiol ac mae wedi sefydlu grwpiau gwella'r ysgol i fynd i'r afael ag agweddau ar yr addysgu a'r dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu na chynnydd disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mireinio'i threfniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff, ac erbyn hyn mae amcanion yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r ysgol.

Ceir niferoedd priodol o staff addysgu a staff cymorth, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn addysgu o fewn eu prif arbenigeddau pwnc. Fodd bynnag, mae lefelau absenoldeb uchel ymhlith staff a'r defnydd o athrawon cyflenwi yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu. Mae arweinwyr a rheolwyr yn dechrau rhoi ystyriaeth fanwl i gostau'r cwricwlwm presennol a'r angen i flaenoriaethu gwariant i gefnogi blaenoriaethau strategol yr ysgol. Fodd bynnag, mae costau staffio ac athrawon cyflenwi yn uchel, ac mae diffyg sylweddol gan yr ysgol yn ei chyllideb. Mae'r ysgol wedi cytuno ar gynlluniau addas gyda'r awdurdod lleol i leihau'r diffyg dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r ysgol wedi defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion. Defnyddiwyd y mwyafrif o'r cyllid yn addas i gyflogi cynorthwywyr cymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn safonau a phresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2018